Y Comisiwn Etholiadol

Etholiadau cynghorau cymuned yng Nghymru

Canllawiau i ymgeiswyr

Rhan 6 o 6 – Ar ôl datgan y canlyniad

Ionawr 2022

Dim ond i etholiadau cynghorau cymuned y mae'r ddogfen hon yn gymwys. Nid yw'n gymwys i etholiadau sirol, etholiadau bwrdeistref sirol nac etholiadau maerol. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer pob etholiad lleol ar ein gwefan yn https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/gweinyddwr-etholiadol

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol 2
Datganiad derbyn swydd 3
Deisebau etholiadol 3
Beth fydd yn digwydd i waith papur yr etholiad ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan? 3
Cyflwyno eich ffurflenni gwariant etholiadol 3
Gwybodaeth atodol 5
Cyflwyno deiseb etholiadol 5
Archwilio a darparu dogfennau sy'n gysylltiedig ag etholiadau 6
Archwilio a darparu'r cofrestrau a'r rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio 6
Archwilio dogfennau etholiadol eraill 8
Ffurflenni gwariant etholiadol 8
Beth fydd yn digwydd os na chaiff ffurflen gwariant neu ddatganiad eu cyflwyno? 9

2

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar yr hyn sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan mewn etholiad cyngor cymuned yng Nghymru.

Darperir gwybodaeth atodol yng nghefn y ddogfen hon, sydd ond yn berthnasol o bosibl i rai ymgeiswyr. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio ‘chi’ i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio ‘rhaid’ wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau sy'n arferion da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Mae'r dyddiadau cau y sonnir amdanynt yn y ddogfen hon yn rhai cyffredinol ac rydym wedi cyhoeddi amserlen gyffredinol ar gyfer etholiadau ar ein gwefan. Os bydd is-etholiad wedi cael ei alw, byddwch yn gallu cael copi o'r amserlen benodol ar gyfer yr etholiad hwnnw gan y Swyddog Canlyniadau.

Ar gyfer etholiadau a drefnwyd, byddwn yn cyhoeddi amserlen etholiadau, y gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Gweler ein dogfen Trosolwg am fanylion cyswllt.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn gymwys i brosesu pob math o ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth diogelu data

Datganiad derbyn swydd

1.1 Os cewch eich ethol ac nad ydych yn datgan eich bod yn derbyn y swydd yn y cyfarfod cyntaf ar ôl yr etholiad, neu cyn y cyfarfod hwnnw (neu gyfarfod diweddarach os bydd y cyngor cymuned yn caniatáu hynny), daw eich sedd yn wag a bydd angen cyhoeddi hysbysiad sedd wag achlysurol pellach[1].

1.2 Drwy lofnodi'r datganiad rydych yn cytuno i ddilyn Cod Ymddygiad yr awdurdod lleol.

Deisebau etholiadol

1.3 Gellir herio canlyniad etholiad cyngor cymuned drwy ddeiseb etholiadol. Ceir rhagor o wybodaeth am herio etholiad ym mharagraff **1.8**.

Beth fydd yn digwydd i waith papur yr etholiad ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan?

1.4 Caiff yr holl ddogfennau etholiadol eu cadw gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol am flwyddyn[2] a bydd y rhan fwyaf ohonynt ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Nodwch nad yw papurau pleidleisio ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Os hoffech archwilio dogfennau etholiadol, ceir rhagor o wybodaeth ym mharagraff **1.141.13**.

Cyflwyno eich ffurflenni gwariant etholiadol

1.5 O fewn 28 diwrnod calendr i ddyddiad yr etholiad, bydd angen i chi baratoi ffurflen gwariant etholiadol a'i chyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau.[3] Bydd angen i chi lofnodi datganiad yn

nodi bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth a'chh cred.[4]

1.6 Ceir mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n rhaid ei gynnwys yn y ffurflen yn Rhan 3 – Gwariant a rhoddion. Rydym hefyd wedi llunio ffurflenni y gallwch eu defnyddio i gwblhau eich ffurflen gwariant. Mae'r ffurflenni hyn – a'r nodiadau manwl atodol sy'n egluro sut y dylech gwblhau a chyflwyno eich ffurflen – i'w gweld o dan Ran 3 ar ein gwefan

1.7 Mae canlyniadau os na fyddwch yn dychwelyd ffurflenni gwariant, ac mae'r rhain wedi'u nodi ym mharagraffau **1.28** i **1.30**~~1.30~~.

Gwybodaeth atodol

Cyflwyno deiseb etholiadol

1.8 Dim ond rhai pobl a gaiff gyflwyno deiseb etholiadol, a dim ond o dan amgylchiadau arbennig.

1.9 Gall deiseb etholiadol gael ei chyflwyno gan y canlynol:[5]

- rhywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- o leiaf bedwar etholwr (nad ydynt yn etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddienw) a oedd â hawl i bleidleisio yn yr etholiad (er nad oes angen iddynt fod wedi pleidleisio)

1.10 Y seiliau a ganiateir dros ddeiseb yw:[6]

- bod yr ymgeisydd llwyddiannus wedi'i anghymhwyso ar adeg yr etholiad
- nad oedd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi'i ethol yn briodol
- bod yr etholiad yn annilys oherwydd arferion llygredig neu anghyfreithlon
- bod yr etholiad yn annilys oherwydd llygredd cyffredinol neu benodi canfasiwr/asiant llwgr

1.11 Fel arfer, rhaid cyhoeddi'r ddeiseb o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl dyddiad yr etholiad.[7] Fodd bynnag, os bydd y ddeiseb yn cwyno am arferion llwgr neu anghyfreithlon sy'n ymwneud â thalu arian neu roi math arall o wobr, neu arfer anghyfreithlon sy'n ymwneud â gwariant etholiadol, gellir caniatáu mwy o amser.

1.12 Ar gyfer unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â deisebau etholiadol, gan gynnwys cadarnhau'r dyddiadau cau ar gyfer

cyflwyno deiseb etholiadol, dylech gysylltu â'r Swyddfa Deisebau Etholiadol:

The Election Petitions Office
Room E113
Royal Courts of Justice
Strand
London
WC2A 2LL

E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk
Ffôn: 0207 947 6877
Ffacs: 0870 324 0024

1.13 Mae costau yn gysylltiedig â deiseb etholiadol. Os ydych yn ystyried cyflwyno deiseb etholiadol, rydym yn argymell yn gryf y dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Archwilio a darparu dogfennau sy'n gysylltiedig ag etholiadau

1.14 Gall pob dogfen sydd ar gael i'w chyflenwi a'i harchwilio gael ei darparu gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, ar wahân i'r ffurflenni gwariant etholiadol, a gedwir gan y Swyddog Canlyniadau. Mae manylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau ar gael ar ein gwefan https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.

Archwilio a darparu'r cofrestrau a'r rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio[8]

1.15 Mae'r cofrestrau etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio yn dangos pwy sydd wedi cael papur pleidleisio, pwy sydd wedi dychwelyd ei bapur pleidleisio drwy'r post, a phwy sydd wedi trefnu bod pleidlais drwy ddirprwy yn cael ei bwrw ar ei ran.

1.16 Gallwch archwilio neu gael copïau o'r gofrestr o etholwyr a'r rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio ar ôl yr etholiad. Os hoffech weld y cofrestrau a'r rhestrau pleidleiswyr

absennol wedi'u marcio, rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae'r manylion cyswllt ar gael ar ein gwefan yn https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.

1.17 Dylech fod yn ymwybodol mai dim ond at ddibenion ymchwil neu ddibenion etholiadol y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a geir o'r dogfennau hyn.

1.18 Rhaid i'r cais am archwiliad nodi:[9]

- pa ddogfennau y gwneir cais amdanynt
- at ba ddibenion y defnyddir y wybodaeth mewn unrhyw ddogfen
- pan fo'r cais ar gyfer archwilio'r gofrestr neu'r rhestrau wedi'u marcio, unrhyw reswm pam na fyddai archwilio'r gofrestr lawn neu'r rhestrau heb eu marcio yn ddigon at y diben hwnnw
- pwy fydd yn archwilio'r dogfennau
- y dyddiad yr hoffech archwilio'r dogfennau
- a fyddai'n well gennych archwilio'r dogfennau ar ffurf argraffedig neu ar ffurf data

1.19 Caiff archwiliadau eu cynnal dan oruchwyliaeth a byddant yn rhad ac am ddim. Ni fyddwch yn gallu mynd â chopïau, ond gallwch wneud nodiadau â llaw.

1.20 Rhaid i'r cais nodi'r canlynol:[10]

- pa gofrestr neu restrau wedi'u marcio (neu'r rhan berthnasol o'r gofrestr neu'r rhestrau) y gwneir cais amdani/amdanynt
- a yw'r sawl sy'n gwneud cais am gael copi argraffedig o'r cofnodion neu'r rhestrau neu gopi ar ffurf data
- at ba ddibenion y defnyddir y gofrestr neu'r rhestrau wedi'u marcio a pham na fyddai darparu neu brynu copi o'r gofrestr lawn neu restrau heb eu marcio yn ddigon i gyflawni'r diben hwnnw

1.21 Codir ffi o £10 ynghyd â £2 am fersiwn argraffedig a £1 am fersiwn ddata fesul 1,000 o gofnodion am y ddogfen y gwneir cais amdani.[11]

1.22 Noder ar ôl 12 mis, caiff y dogfennau hyn, a gedwir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, eu dinistrio, oni fydd gorchymyn llys yn nodi'n wahanol.[12]

1.23 O dan ddeddfwriaeth diogelu data bresennol, ni chaiff data personol a brosesir at unrhyw ddiben eu cadw am fwy nag sydd ei angen at y diben hwnnw. Os byddwch yn gwneud cais am y wybodaeth a restrir uchod ac yn ei derbyn, unwaith y bydd diben casglu'r data hyn wedi darfod, bydd angen i chi ystyried a oes rheswm dros gadw'r data hynny. Os nad oes rheswm, dylech sicrhau bod unrhyw ddata a gedwir yn cael eu dinistrio'n ddiogel

Archwilio dogfennau etholiadol eraill[13]

1.24 Gallwch archwilio dogfennau etholiadol eraill, ond ni fyddwch yn cael gwneud unrhyw nodiadau na chymryd copïau o'r dogfennau hyn. Yr unig ddogfennau na ellir eu harchwilio yw:

- y papurau pleidleisio
- y rhestrau rhifau cyfatebol
- y tystysgrifau sy'n caniatáu i staff gorsafoedd pleidleisio bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio y maent yn gweithio ynddi

Ni ellir archwilio papurau enwebu ar ôl yr etholiad. Dim ond tan y diwrnod cyn yr etholiad y gellir eu harchwilio.

1.25 Ar ôl 12 mis, caiff yr holl ddogfennau etholiadol, a gedwir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, eu dinistrio, oni fydd gorchymyn llys yn nodi'n wahanol.[14]

Ffurflenni gwariant etholiadol[15]

1.26 Caiff y ffurflenni gwariant a'r datganiadau eu cadw gan y Swyddog Canlyniadau. Gall unrhyw un archwilio ffurflenni gwariant a datganiadau ar ôl iddynt gael eu cyflwyno. Mae copïau hefyd ar gael am ffi o 20c bob ochr.

1.27 Cedwir ffurflenni gwariant a datganiadau am flwyddyn a gallwch ofyn am iddynt gael eu dychwelyd i chi ar ddiwedd y cyfnod hwn. Os nad ydych am eu cael yn ôl, gellir eu dinistrio.

Beth fydd yn digwydd os na chaiff ffurflen gwariant neu ddatganiad eu cyflwyno?

1.28 Mae methu â chyflwyno ffurflen gwariant neu ddatganiad erbyn y dyddiad cau heb esgus awdurdodedig yn drosedd.[16]

1.29 Mae gan y Comisiwn Etholiadol gylch gwaith cyfreithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau ynghylch gwariant a rhoddion ymgeiswyr, ond nid oes ganddo bwerau cosbi mewn perthynas â thorri'r rheolau. Os amheuir bod ymgeisydd yn torri'r rheolau, dylid cyfeirio'r mater at yr heddlu.

1.30 Os yw ymgeisydd wedi cael ei ethol ond heb gyflwyno'r ffurflen gwariant a/neu'r datganiad erbyn y dyddiad cau, caiff ei wahardd rhag eistedd a phleidleisio, ac mae'n bosibl y caiff fforffediad neu ddirwy o £50 y dydd am wneud hynny.[17]

---

[1] Deddf Llywodraeth Leol 1972, adran 83
[2] Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 (Rheolau Cymunedau 2021), Rheol 65, Atodlen 1
[3] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Atodlen 4, paragraff 3
[4] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Atodlen 4, paragraff 3, a Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 7
[5] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 128
[6] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 127
[7] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 129
[8] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001). 117, 118
[9] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 118(2)
[10] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 117(3)
[11] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 120(2)
[12] Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 65
[13] Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, rheoliad 118

0

[14] Rheolau Cymunedau 2021, Rheol 65
[15] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Atodlen 4, paragraff 8
[16] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Atodlen 4, paragraff 5
[17] Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Atodlen 4, paragraff 4